# Swyddog Ymgysylltu (1 swydd FTE ac 1 swydd 0.5FTE)

## Swydd-Ddisgrifiad:

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Lleoliadau amrywiol ledled Ceredigion, Powys, Sir Gâr a Sir Benfro. Mae trefniadau gweithio Hybrid ac o Adref ar gael. |
| Yn Adrodd I | Menter Gorllewin Sir Gâr |
| Hyd y Cytundeb | 31 Mawrth, 2029 |
| Cyflog | £27,000 y flwyddyn, yn ôl cyfran am y swydd rhan amser. Mae swyddi llawn amser yn seiliedig ar wythnos 35 awr a'r swydd rhan amser ar wythnos 17.5 awr. |

### Trosolwg o'r Bartneriaeth

Menter uchelgeisiol bum mlynedd yw Porth Gwyrdd wedi'i dylunio i ysbrydoli, ymgysylltu a chefnogi pobl 16-30 oed sydd ar y cyrion yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i mewn i yrfaoedd gwyrdd, cynaliadwy. Mae'r prosiect wedi'i gydgynhyrchu gyda ac er mwyn pobl ifanc sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol, yn enwedig menywod, y rheiny sydd ar gyrion addysg a chyflogaeth, ar incwm isel, ac yn byw mewn ardaloedd gwledig. Arweinir y bartneriaeth gan Foothold Cymru, mewn partneriaeth ag Antur Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a PLANED, gan weithio ledled Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

## Ynglŷn â'r Gronfa a'i Uchelgais

Ariennir prosiect Porth Gwyrdd gan Raglen Gyrfaoedd Gwyrdd Cronfeydd Segur Llywodraeth Cymru a'i reoli gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Nod y gronfa yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd gwyrdd ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n anabl neu o gymunedau ethnig amrywiol.
- Cefnogi'r bobl ifanc hyn i fewn i yrfaoedd gwyrdd trwy ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, a chyflogaeth hirdymor.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru
Dormant Assets
Sustainable Steps Wales
Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL
Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

- Paratoi cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cynhwysol.
- Rhannu gwersi er mwyn dylanwadu ar bolisi ac arferion, gan yrru arloesedd a chynhwysiant yn economi werdd Cymru a thu hwnt.

## Pwrpas y Rôl

Bydd yr Swyddogion Ymgysylltu yn chwarae rhan bwysig wrth gyrraedd, ysbrydoli, a chefnogi pobl ifanc rhwng 16–30 i gymryd rhan yn y prosiect Porth Gwyrdd. Gan weithio'n agos gyda chymunedau lleol a phartneriaid y prosiect, byddant yn sicrhau bod llais ac anghenion grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ganolog i bob gweithgaredd, a bod cyfleoedd ar gael, yn gynhwysol, ac yn berthnasol.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Adnabod, estyn allan, a chysylltu'n rhagweithiol â phobl ifanc o grwpiau targed ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan adeiladu ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa gwyrdd.
- Datblygu a chynnal perthynas gref gydag ysgolion, colegau, grwpiau cymunedol, sefydliadau ieuenctid a DWP yn lleol, i hyrwyddo'r prosiect, cynyddu gwybodaeth am yr economi werdd a recriwtio cyfranogwyr.
- Cyd-ddylunio a chyflwyno gweithgareddau, gweithdai, a digwyddiadau ymgysylltu cynhwysol—wyneb i wyneb ac ar-lein—i godi ymwybyddiaeth am yrfaoedd gwyrdd a'r cymorth sydd ar gael.
- Darparu cymorth un i un ac mewn grŵp i bobl ifanc, gan eu helpu i ddeall eu dewisiadau, adeiladu hyder, a chael mynediad i weithgareddau, hyfforddiant, a lleoliadau prosiect.
- Bod yn bwynt cyswllt allweddol i gyfranogwyr, gan gynnig anogaeth, arweiniad, a chyfeirio parhaus i wasanaethau ac adnoddau perthnasol.
- Cefnogi recriwtio, cynefino ac ymwneud Llysgenhadon Cyfoedion, gan sicrhau bod eu profiad bywyd yn siapio cyflawniad a chyrhaeddiad y prosiect.
- Gweithio ar y cyd gyda phartneriaid y prosiect, Hyfforddwyr Gwaith, i sicrhau dull cyfannol a chydgysylltiedig i gefnogi cyfranogwyr.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

- Cyfrannu tuag at ddatblygu a lledaenu deunyddiau dwyieithog (Cymraeg/Saesneg), gan sicrhau bod popeth yn hygyrch ac yn ddiwylliannol sensitif.
- Cadw cofnodion cywir o weithgareddau ymgysylltu, cynnydd cyfranogwyr, ac adborth, gan gyfrannu at fonitro, asesu, ac adrodd.
- Cynrychioli prosiect Porth Gwyrdd mewn fforymau, rhwydweithiau, a digwyddiadau lleol, gan gefnogi llais pobl ifanc yn yr economi werdd.

### Effaith a Chanlyniadau

- Gwell ymwybyddiaeth a chymhelliant ymhlith pobl ifanc ar y cyrion i ddilyn gyrfaoedd gwyrdd.
- Gwell hyder, sgiliau, a chyflogadwyedd ymhlith cyfranogwyr ifanc drwy gefnogaeth a hyfforddiant wedi'u teilwra.
- Cyfraddau cynnydd uwch i leoliadau â thâl, interniaethau, addysg bellach, neu gyflogaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Gwell cynhwysiant a chynrychiolaeth o bobl ifanc amrywiol yn y gweithlu gwyrdd.

## Manyleb y Person

### Hanfodol

- Profiad o ymgysylltu cymunedol, gwaith ieuenctid, neu allgymorth, yn enwedig gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu a ymyleiddiwyd
- Deall y rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc anabl a'r rheiny o gefndiroedd ethnig amrywiol
- Gallu adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid cymunedol
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, gydag ymrwymiad i gyfartaledd, amrywiaeth a chynhwysiant
- Profiad o drefnu a chyflwyno gweithdai, digwyddiadau, neu weithgareddau grŵp
- Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, gan reoli llwyth gwaith amrywiol
- Sgiliau trefnu a sylw i fanylion, gyda phrofiad o gynnal cofnodion ac adrodd
- Agwedd gadarnhaol, ragweithiol, a hyblyg

## Dymunol

- Gwybodaeth am y sector sgiliau gwyrdd, cynaliadwyedd, neu amgylcheddol
- Profiad o weithio mewn lleoliadau dwyieithog neu amlddiwylliannol
- Cynefindra â chyflogaeth gyda chefnogaeth neu gyfarwyddyd gyrfaoedd
- Profiad o gefnogi neu weithio gyda Llysgenhadon Cyfoedion neu wirfoddolwyr
- Sgiliau yn y Gymraeg (ar lafar ac yn ysgrifenedig)

## Arall

- Maer partneriaeth wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg a chefnogi llesiant staff.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad manylach DBS.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ar draws y pedair sir sy'n rhan o'r prosiect.